
PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 31.05.12

Yn bresennol: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Lesley Day, Elwyn Edwards, Gwynfor Edwards, Trevor Edwards, Aled Evans, Gweno Glyn, Jason Humphreys, Charles Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.

Hefyd yn Bresennol: Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), Vera Jones (Uwch Reolwr Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Gareth James (Rheolwr Craffu a Gweithredol) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Huw Edwards, Stephen Churchman a Selwyn Griffiths.

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Simon Glyn yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2012/13.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dyfrig Jones yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2012/13.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod olaf o'r Prif Bwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 29 Mawrth, 2012 fel cywir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.05am